Beth yw Caffael?

"Mae dyletswydd ar y sector cyhoeddus i wneud y defnydd gorau posibl o arian cyhoeddus, a chael y gwerth gorau o'r arian y mae'n ei wario. Nid yw hynny'n golygu cael y pris rhataf, yn hytrach mae'n golygu cael y budd ehangaf posibl o'r modd y caiff yr arian ei wario ac ar beth."

Carwyn Jones AC

- **Caffael yw…**yr holl broses o bwrcasu, sy'n cwmpasu nwyddau, gwasanaethau, gwaith a phrosiectau cyfalaf. Mae'r broses yn rhychwantu'r cylch cyfan o'r syniad cychwynnol hyd at ddiwedd oes yr ased fel rhywbeth defnyddiol (gan gynnwys gwaredu) neu ddiwedd y contract gwasanaeth neu waith/prosiectau cyfalaf.

- **Mae caffael da yn golygu…**cael gwerth am arian (hynny yw, caffael cynnyrch neu wasanaeth sy'n ateb y diben, gan gymryd costau oes gyfan i ystyriaeth.)

- **Dylai proses gaffael dda…**gael ei chyflawni'n effeithlon, er mwyn cadw'r amser a'r costau cyn lleied â phosibl i bawb.

- **Mae caffael llwyddiannus yn…**dda i'r cyhoedd, yn dda i'r trethdalwr, ac yn dda i fusnesau sy'n cyflenwi'r Cyngor.

- **Mae caffael cyfrifol yn golygu…**sicrhau fod nwyddau, gwaith a gwasanaethau yn cael eu caffael drwy fynd i'r afael â materion cyfrifoldeb corfforaethol, cynaliadwyedd, a materion moesegol eraill, ac ar yr un pryd cael gwerth am arian ar ein contractau a thrwy gynnal ein gweithgareddau contractiol mewn modd agored, tryloyw nad yw'n gwahaniaethu.

- **Mae caffael cynaliadwy yn golygu…**gwneud gwell dewisiadau wrth brynu nwyddau, gwaith a gwasanaethau. Mae'n golygu gwerth am arian nid dim ond gwerth ariannol yn unig ac mae hyn yn cynnwys ansawdd a chostau oes y nwyddau a'r gwasanaethau. Mae bod yn gynaliadwy yn golygu ystyried meini prawf datblygu cynaliadwy wrth bennu'r gwerth am arian drwy asesu effaith ffactorau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Cyflwyniad i Gaffael yng Nghyngor Sir Caerfyrddin

- Mae CSC yn gwario tua £170 miliwn y flwyddyn ar nwyddau, gwaith a gwasanaethau, ac mae rhoi amryw o gyfleoedd masnachol i fusnesau o bob sector a maint, gan gynnwys Busnesau Bach a Chanolig eu Maint, Cyrff Trydydd Sector a grwpiau Lleiafrifol eraill.
- Prif rôl yr Uned Caffael Corfforaethol yw bod mor effeithiol â phosibl yn ei gweithgareddau caffael.
- Mae CSC yn caffael unrhyw beth o frodwaith i adeiladu.
- Mae'r Cyngor yn cyflogi dros 9000 o staff mewn 6 adran ac mae cyswllt caffael ym mhob adran.
- Mae gan y Cyngor agwedd ddatganoledig at bwrcasu - lle mae gweithgareddau pwrcasu pob un o adrannau'r Cyngor yn gyfrifoldeb uniongyrchol y dalwyr cyllidebau, a all wneud archebion a thendro am gontractau.
- Mae CSC yn caffael eu nwyddau, gwaith a gwasanaethau mewn modd 'cyfrifol' ac mae ei weithgareddau caffael yn cael eu rheoli gan yr Uned Caffael Corfforaethol (UCC)
- Mae'r UCC, er mwyn cydymffurfio â'r codau ymarfer, gweithdrefnau, rheolau, rheoliadau a'r Cyfarwyddebau perthnasol yn sicrhau fod pob proses gaffael yn cael y gwerth gorau am arian bob amser a'i bod yn cael ei chyflawni mewn modd agored a thryloyw nad yw'n gwahaniaethu.
- Mae'r UCC yn gweithio gyda Thîm Caffael Gwerth Cymru Llywodraeth Cynulliad Cymru ac eraill i ymchwilio i ddulliau arloesol o ddarparu cyngor a chyfarwyddyd ynghylch gwerth gorau i'n darpar gyflenwyr.
- Mae UCC yn ymroddedig i gael y gwerth gorau posibl am arian o'r coffrau cyhoeddus drwy ddod â buddiannau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd i'n cymunedau lle bynnag y bo modd.
- Mae CSC yn aelod o Gonsortiwm Prynu Cymru ac mae wedi ymrwymo i gaffael cydweithredol drwy weithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol eraill i gael y gwerth gorau posibl o'n contractau.
- Hefyd, mae'r Awdurdod yn parhau i weithio gyda'r Sector Cyhoeddus ehangach yng Nghymru i sicrhau na fydd gweithredu'n gydweithredol mewn unrhyw fodd yn effeithio er gwaeth ar y dull cynaliadwy o gaffael. Gwneir hyn drwy gaffael yn ddeallusol ee defnyddio 'lotiau' (gall y rhain fod yn ddaearyddol, ariannol neu becynnau o fath arall) sy'n rhoi cyfle cyfartal i gyflenwyr bach gynnig am rannau o gontractau mwy o faint. Mae cydweithredu â'r farchnad yn gynnar i gael gwybodaeth am opsiynau pacio contractau yn ffordd arall y gall yr holl bartneriaid annog busnesau llai a sefydliadau'r trydydd sector yn eu hardaloedd i gynnig am waith.

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council



Ymrwymiad Cyngor Sir Caerfyrddin i Fusnesau Bach a Chanolig eu Maint, Cyrff Trydydd Sector a Grwpiau Lleiafrifol lleol

- Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i 'Agor Drysau', y Siarter ar gyfer Caffael sy'n Gyfeillgar i Fusnesau Bach a Chanolig eu Maint. Mae'n cydnabod y cyfraniad pwysig a wneir gan fusnesau bach a chanolig eu maint, Cyrff Trydydd Sector a grwpiau lleiafrifol eraill ac mae'n eu gwerthfawrogi. Mae wedi mabwysiadu rhaglen weithredu i ymateb i gaffael mewn dull cyson ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.
- Mae'r UCC yn cydnabod y pwysigrwydd o gael mynediad i sylfaen amrywiol o gyflenwyr o safon, ac mae'n sylweddoli mai'r cyflenwyr a'r darpar gyflenwyr yw 'bara menyn' pob proses gaffael. Heb gyflenwyr addas ni fyddai modd masnachu'n effeithiol ac yn effeithlon.
- Mae'r UCC yn sylweddoli mai pobl sy'n gwneud busnes – siarad â nhw, gwrando arnyn nhw, a'u deall. Y cysylltiadau busnes hyn sy'n sicrhau fod contractau'n gweithio.
- Mae'r UCC yn awyddus iawn i feithrin perthynas weithgar gyda chyflenwyr er mwyn cael gwybodaeth a dealltwriaeth am y cynnyrch a'r gwasanaethau sydd ar gael i ni ac i gael adborth gwerthfawr ac awgrym am bethau sydd, ym marn darpar gyflenwyr, yn rhwystr i fasnach.
- Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i weithredu ar yr adborth y mae'n ei gael er mwyn gwella'i wasanaethau a helpu i roi maes chwarae teg a gwastad ar gyfer ei holl ddarpar gyflenwyr.

Nodau ac Amcanion

- Bod yn flaenweithgar o ran trefnu amryfal fentrau i ymgysylltu â'r farchnad ee Sesiynau Cymorthfeydd Caffael, Digwyddiadau Cwrdd â'r Prynwyr, Fforymau Darparwyr, Gweithdai Sut i Dendro.
- Hyrwyddo a chyhoeddi amryfal sesiynau, gweithdai a digwyddiadau ar wefan yr Awdurdod a safleoedd perthnasol eraill.
- Gwella ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd contractio sydd ar y gweill a chyhoeddi gwybodaeth am sut y mae'r Awdurdod yn caffael ei nwyddau, gwaith a gwasanaethau.
- Rhoi cyfle i bob darpar gyflenwr fasnachu am fusnes y Cyngor a medru cystadlu ar faes chwarae gwastad.
- Pennu pwynt cyswllt cyntaf a dolen gyswllt i fusnesau ar gyfer materion caffael.

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council



Caffael - Pam? Beth? Pryd? a Phwy?

Pam rydyn ni'n prynu?

- I ddiwallu angen yr Awdurdod am amrywiaeth eang o nwyddau, gwaith a gwasanaethau - ar ran trigolion Sir Gaerfyrddin.
- Gwarchod, cyfoethogi a hyrwyddo ansawdd bywyd yn Sir Gaerfyrddin – a'i gwneud yn sir arbennig i fyw a gweithio ynddi ac i ymweld â hi.
- Sicrhau ein bod yn cyflawni ein gofynion busnes fel Awdurdod cyhoeddus.

Pam rydyn ni'n prynu yn y modd hwn?

- Oherwydd ein bod yn ymrwymedig i arferion caffael agored a thryloyw nad ydynt yn gwahaniaethu.
- Oherwydd ein bod yn ymrwymo'n hunain i gael y gwerth gorau yn y swyddogaeth gaffael
- Oherwydd ein bod yn annog cyfraniad cadarnhaol gan ein cyflenwyr
- Oherwydd ein bod yn mynd ati i ddeall effaith ein gweithgareddau caffael ar gynaliadwyedd – amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd
- Oherwydd ein bod yn ystyried ffyrdd o gydweithredu a phartneriaid a/neu gyrff eraill er mwyn bod yn effeithiol.

Beth rydyn ni'n ei brynu?

- **Popeth - o frodwaith i adeiladu a llawer o bethau eraill …er enghraifft:**

- Yr Adran Gofal Cymdeithasol a Thai – Darparu gofal a chymorth 24 awr i bobl ag anableddau, ceginau a bwyleri i Safon Tai Sir Gaerfyrddin
- Yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant – Adnoddau Addysgol, Bwyd i Ysgolion
- Yr Adran Gwasanaethau Technegol – Cyflenwadau Adeiladu, Darparu Gwasanaethau Strydwedd
- Yr Adran Adnoddau – Cyfarpar TG, Telathrebu
- Yr Adran Adfywio a Hamdden – Ymgynghorwyr Marchnata, Cyfarpar Ffitrwydd
- Adran y Prif Weithredwr – Comisiynu Gwasanaethau Argraffu, Gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Pryd rydyn ni'n prynu?

- Gall hyd y contractau a'r cytundebau fframwaith amrywio o flwyddyn i hyd at bedair blynedd (y Fframweithiau yn unig sydd ag uchafswm o 4 blynedd. Ni chyfyngir ar hyd Contractau heblaw'r hyn sy'n rhesymol o ran cystadleuaeth).
- Gall fod opsiwn i ymestyn y contract – lle mae'n bosibl ychwanegu cyfnod penodol at hyd y contract (ee 1-2 flynedd) heb fod angen hysbysebu.
- Mae modd adnewyddu rhai contractau – i sicrhau parhad yn y cynnyrch neu'r gwasanaethau lle bo hynny'n briodol.
- Eitemau 'unwaith yn unig' a chontractau ad hoc – mae amrywiaeth o'r rhain a phrosesau cael dyfynbrisiau ar y gweill yn gyson, ac yn ôl y galw.

Pwy sy'n gwerthu i ni?

- Mae CSC yn annog sylfaen amrywiol o gyflenwyr, sy'n cynnwys cwmnïau mawr cenedlaethol ac aml-genedlaethol, busnesau bach a chanolig eu maint, unig fasnachwyr, cyrff trydydd sector a grwpiau lleiafrifol eraill.

- Rydyn ni'n ymchwilio i gyfleoedd i fasnachu gyda'r gymuned bresennol o gyflenwyr a chyda darpar gyflenwyr.



Gyda phwy rydyn ni'n prynu – ar y cyd ac yn annibynnol

- Yn genedlaethol– Swyddfa'r Llywodraeth a Masnach (OGC)
- Ar y cyd a Chyrff Sector Cyhoeddus ar level "Cymru Gyfan"
- Ar y cyd ag Awdurdodau Lleol yn Ne-orllewin Cymru – Con sortiwm Prynu Cymru (WPC)
- Yn rhanbarthol – Ceredigion, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin
- Yn gorfforaethol ac yn lleol

Rydyn ni yng Nghyngor Sir Caerfyrddin yn ymgymryd â nifer o gontractau ac ymarferion caffael yn annibynnol.

Mae'r Awdurdod wedi gwneud penderfyniad strategol i gaffael ar sail unigol a chan Adrannau o fewn y Cyngor.

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Sut yr ydym yn prynu

Rhaid i'r holl gontractau a wneir gan yr Awdurdod neu ar ei ran gydymffurfio â Chyfarwyddebau Caffael Cyhoeddus yr Undeb Ewropeaidd, Deddfwriaeth Genedlaethol, Rheolau o ran Gweithdrefnau Contractau, Rheolau'r Weithdrefn Ddyfynbrisiau a Rheolau Gweithdrefn Ariannol yr Awdurdod.

Mae'r cyngor yn dilyn rheolau contractau cyhoeddus yn ôl gwerth y contractau hynny.

Mae'r Uned Caffael Corfforaethol yn rhoi cyngor a chyfarwyddyd ar gaffael, gan ddilyn y rheolau hyn o ran pob un o adrannau'r Cyngor. Dangosir isod y rheolau ar gyfer pob trothwy ariannol:

Cyfarwyddebau Caffael Cyhoeddus yr Undeb Ewropeaidd

- Mae'r Sector Cyhoeddus yn ymrwymedig, yn ôl y gyfraith, i ddilyn Cyfraith Ewrop ar weithgareddau caffael yn y Sector Cyhoeddus
- Prif nod y cyfarwyddebau yw sicrhau fod y farchnad caffael cyhoeddus yn fwy agored i helpu i symud nwyddau, gwaith a gwasanaethau yn fwy rhwydd yn yr UE, a thrwy hynny rhoi mwy o gyfle i gyflenwyr, contractwyr a darparwyr gwasanaethau gystadlu ar draws ffiniau.
- Dylid mabwysiadu Cyfarwyddebau'r UE pan fydd y contractau dros drothwy penodol (gweler isod), a'r adeg honno dylid cynnal Ymarfer Tendro swyddogol yn unol â'r Cyfarwyddebau Caffael Cyhoeddus Ewropeaidd.
- Rhaid i gontractau sy'n uwch na'r trothwy hwn gael eu hysbysebu yng nghyfnodolyn swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU).
- Adolygir y trothwyon ariannol Ewropeaidd o ran Caffael Cyhoeddus bob dwy flynedd. Daeth y gwerthoedd presennol canlynol i rym ar 1 Ionawr 2008: -

Contractau Nwyddau £139,893
Contractau Gwasanaethau £139,893
Contractau Gwaith Adeiladu a Pheirianneg.....£3,497,313

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Rheolau o ran Gweithdrefnau Contractau

- Diben Rheolau o ran Gweithdrefnau Contractau yw gosod rheolau ar gyfer caffael nwyddau, gwasanaethau a gwaith ar gyfer yr Awdurdod fel y gallwn gael gwerth am arian.
- Bydd hyn yn sicrhau system o fod yn agored a thryloyw nad yw'n gwahaniaethu, lle nad oes unrhyw amheuaeth ynghylch atebolrwydd ac uniondeb y broses gaffael.
- Os yw'r contract caffael yn werth mwy na £75,000 ond yn werth llai na'r trothwyon ariannol Ewropeaidd, bydd Rheolau o ran Gweithdrefnau Contractau yn gymwys a dylid cynnal proses dendro swyddogol.

Rheolau o ran Gweithdrefnau Dyfynbrisiau

- Diben Rheolau o ran Gweithdrefnau Dyfynbrisiau yw gosod rheolau clir ar gyfer caffael nwyddau, gwasanaethau a gwaith ar gyfer yr Awdurdod fel y gallwn gael gwerth am arian.
- Bydd hyn yn sicrhau system o fod yn agored a thryloyw nad yw'n gwahaniaethu, lle nad oes unrhyw amheuaeth ynghylch atebolrwydd ac uniondeb y broses gaffael.
- Os yw'r contract caffael yn werth llai na £75,000 bydd Rheolau o ran Gweithdrefnau Dyfynbrisiau yn gymwys.

Gwerth hyd at £5,000	Dylai'r daliwr cyllideb fod yn fodlon y cafwyd y gwerth gorau am yr arian, a bod gofal rhesymol wedi'i gymryd i gael nwyddau a gwasanaethau o safon ddigonol am bris cystadleuol.
Gwerth rhwng £5,000 a £25,000	Dylid cael 3 dyfynbris o leiaf a dylid eu cadarnhau ar bapur, drwy neges ffacs neu drwy neges e-bost.
Gwerth rhwng £25,000 a £75,000	Dylid cael 3 dyfynbris ffurfiol o leiaf o ffynonellau cystadleuol, wedi'u seilio ar yr un amodau contract, ar yr un meini prawf gwerthuso ac ar yr un dyddiad cau.

- Mae'r Cyngor yn ymroddedig i gefnogi a datblygu busnesau lleol bach a chanolig eu maint a rhaid ystyried hyn yn rhan o unrhyw asesiad gwerth am arian.
- Hefyd, mae'r Cyngor yn ymroddedig i gefnogi Cyrff Trydydd Sector a Mentrau Cymdeithasol. Mae'r sefydliadau hyn yn ffynhonnell o gyflenwyr o ansawdd a gwerth am arian sy'n aml yn cael eu hanghofio.

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Dod o hyd i wybodaeth am Gontractau'r Cyngor

- Os bydd y contract dros Drothwy yr UE, bydd Hysbysiad yn cael ei roi yng nghyfnodolyn swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU), y gellir ei weld ar TED (Tenderers Electronic Daily) sef y fersiwn ar-lein o OJEU …http://ted.europa.eu

- Caiff pob gweithgaredd caffael dros £25,000 ei hysbysebu ar y wefan Caffael Cenedlaethol, sef gwefan GwerthwchiGymru (www.Sell2Wales.co.uk) ac argymhellir eich bod yn cofrestru ar y wefan hon. Gallwch wneud hynny am ddim a bydd yn gyfle i chi hyrwyddo eich corff nid dim ond i Gyngor Sir Caerfyrddin, ond hefyd i Sector Cyhoeddus Cymru a chael gwybodaeth dros yr e-bost am gyfleoedd posibl.

- Ar hyn o bryd, mae rhywfaint o'r gweithgaredd caffael o dan £25000 yn cael ei roi ar wefan GwerthwchiGymru, ond rydym yn aros am gyfarwyddyd yngylch sut orau i fynd i'r afael â'r lefel hon o wariant. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y gwerth is hwn a pha mor ddeniadol yw i fusnesau bach, yn enwedig busnesau newydd.

- Lle bo hynny'n briodol, hysbysebir pob tendr yn y wasg, gan gynnwys y wasg leol, ac weithiau y wasg genedlaethol, ac yn ogystal mewn cylchgrawn neu gyhoeddiad masnachol priodol.

- Mae rhestr o'r contractau cyfredol ar wefan yr Awdurdod (www.sirgar.gov.uk) a nodir hefyd ddyddiad dechrau a gorffen y contractau, hyd y contract a'r dull caffael. Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr ond mae rhoi manylion nifer fawr o gontractau adnewyddadwy Cyngor Sir Caerfyrddin.

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Dod â'r darpar brynwyr a'r gwerthwyr at ei gilydd...

- Mae pwynt cyswllt cyntaf a dolen gyswllt i fusnesau ynghylch caffael wedi ei sefydlu a gall roi mwy o wybodaeth i chi am fasnachu gyda'r Cyngor gan gynnwys manylion cyswllt Prif Swyddogion Contractau a Swyddogion Arbenigol yn yr Awdurdod a all fod angen y cynnyrch a'r gwasanaethau yr ydych chi'n eu darparu – gan ddod â darpar brynwyr a gwerthwyr at ei gilydd.
- Wrth gwrs, mae cryn gystadleuaeth am waith a chontractau Cyngor Sir Caerfyrddin o ran nwyddau a gwasanaethau ac yn anffodus ni allwn roi sicrwydd i gwmnïau unigol y bydd eu cais yn llwyddiannus.
- Serch hynny, rydym yn anelu at roi digon o wybodaeth fel y gall cwmnïau gystadlu am unrhyw gyfleoedd sydd gennym.
- Mae gennym nifer o Swyddogion Caffael yn yr Uned Caffael Corfforaethol sy'n arbenigo mewn amrywiol weithgareddau a swyddogaethau caffael.

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

Kim Baker
Uwch-swyddog Caffael

Ffôn: 01267 246241
Ffacs: 01267 246234

E-bost: kbaker@sirgar.gov.uk

Cyfeiriad:
Yr Uned Caffael Corfforaethol
Adeilad 8
Parc Dewi Sant
Heol Ffynnon Job
Caerfyrddin
SA31 3HB

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council